pp Tachwedd 23.qxp_Layout 1 07/11/2023 11:31 am Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Tachwedd 2023 Rhif 493



Calan Gaeaf – tud 10

tud 4/5 Ysgol Tal-y-bont
tud 7 Trin dŵr glaw
tud 10 Yn Naturiol
tud 12 Chwaraeon

# Wel, wel, am wal

Mae gyrwyr sy'n teithio drwy pentref Tal-y-bont yn hapus iawn erbyn hyn wrth i'r goleuadau traffig ddiflannu o waelod y pentref yn ystod wythnos gyntaf Tachwedd. Gyda'r gwaith o gryfhau'r wal wrth ochr y ffordd ar fin ei gwblhau mi fydd yna flwyddyn wedi pasio ers yr oedi wrth pont y Leri. Cwmni peiriannwyr sifil Jones sydd wedi bod yn gyfrifol am y prosiect gyda chwmni Celtic Heritage o Gaernarfon yn gyfrifol am y gwaith cerrig hardd. Dyma Neil Parry, crefftwr o Fethesda yn y llun wrth iddo gwblhau'r gwaith. Braf yw nodi y bydd y cerrig ar frig y wal wedi eu hadfer o'r wal gwreiddiol.






Dewch i fwynhau paned a chacen, rhoi cynnig ar y raffl a gwneud ychydig o siopa Nadolig!
Ond yn fwy na dim - dewch i gael clonc!

£2.00 oedolion / plant am ddim

## Gwasanaeth Bysys Gwell

O'r 5ed o Dachwedd mae amserlen bysys newydd wedi'i chyflwyno ar gyfer yr ardal hon… a braf yw adrodd ei bod yn fwy cynhwysfawr na'r hen un.

Unwyd y gwasanaethau T2 ac X28 i greu un gwasanaeth T2/28. Bob dydd (ac eithrio ar ddydd Sul) bydd y bws cynharaf o Fachynlleth yn gadael am 6.40, yn aros yn Nhre'rddôl am 6.56 a Thal-y-bont am 7.01 a chyrraedd Aberystwyth am 7.23. Bydd bysys bob awr o hynny allan tan 18.01 (Tal-y-bont). Yna mae bws hwyr yn teithio drwy'r ardal gan adael Tal-y-bont am 22.01 a chyrraedd Aberystwyth am 22.23.

Bydd y bysys o Aberystwyth yn gadael yr orsaf o 7.37 ymlaen ac mae dau fws hwyr yn gadael y dref am 21.37 a 22.25.

Mae gwasanaeth gwell ar y Sul hefyd.

Mae modd cael yr amserlen newydd gan y gyrrwr bws neu mae hefyd i'w gweld ar y wefan: https://lloydscoaches.com/t2nov23/

## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Non Griffiths
**(01654) 781264**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


## Golygyddion

Golygwyd y rhifyn hwn gan Helen, Lynn a Siwan gyda Ceri'n dylunio. Diolch iddynt.

Rhian (rhian.evans@tiscali.co.uk) a Catrin (catrinssj@gmail.com) fydd yn golygu rhifyn Rhagfyr.

Y dyddiad cau yw 1 Rhagfyr a bydd y papur ar werth ar 8 Rhagfyr.




"Dim sôn am darw potel ma' nhw!"

# Creu rhwydwaith fwyd cynaliadwy

Mae Enfys Veg yn ardd farchnad newydd yn Nhal-y-bont. Sefydlwyd y fenter eleni gyda'r nod o dyfu'n gynllun Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned, lle mae'r risgiau a'r buddion yn cael eu rhannu rhwng y tyfwyr a'r aelodau. Bydd yn cyflenwi bwyd maethlon i'r gymuned leol tra hefyd yn gwella iechyd y pridd, yn cefnogi ecosystemau amrywiol, ac yn cael ei gefnogi gan ac yn cynnwys y gymuned leol.

Nod y fenter yw ysbrydoli pobl i ailgysylltu – â'i gilydd, â'r amgylchedd, â'r grefft o dyfu, ac, wrth gwrs, â bwyd.

Bwriad y fenter yw i fod yn gyfeillgar i fywyd gwyllt ac i feithrin bioamrywiaeth. Y cam cyntaf oedd plannu gwrych o rywogaethau brodorol amrywiol, gan gynnig noddfa bywyd gwyllt a hafan i'r cynnyrch.

Bydd rhywbeth at ddant pawb sydd â diddordeb. Tyfu gyda'n gilydd, adeiladu siediau, rhoi'r gorau i systemau dyfrhau, dysgu technegau 'cloddio', te awyredig, cynllunio cnydau, tyfu ac arbed hadau treftadaeth.

Os hoffech wybod mwy neu am fod yn rhan o'r prosiect fel cwsmer, cefnogwr, gwirfoddolwr, aelod o'r bwrdd rheoli, cysylltwch â ruthkernohan@yahoo.com ac ymunwch â'r cylchlythyr. https://www.facebook.com/enfysveg

## Yes Cymru Gogledd Ceredigion

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig grŵp Gogledd Ceredigion o *Yes Cymru* yn neuadd Rhydypenau ar ddydd Sadwrn 4ydd o Dachwedd i wrando ar Gwern Gwynfil, Prif Weithredwr *Yes Cymru*, yn trafod ac ateb cwestiynau am ddyfodol Cymru annibynnol a sut all aelodau *Yes Cymru* bod yn rhan o'r ymgyrch. Bu nifer o gwestiynau diddorol a phositif: yn ôl Gwern, mae posibiliad cryf y bydd Cymru'n annibynnol yn gynt na'r disgwyl, efallai hyd yn oed cyn i'r Alban bleidleisio amdani. Dywedodd fod cefnogaeth am annibyniaeth ymhlith y Cymry yn gyson tua 30-35%. Soniodd hefyd am gynlluniau hydrogen gwyrdd y Ffindir, a gall ychwanegu dros $35 biliwn i economi'r Ffindir o fewn 10 mlynedd. Mae mwy o botensial am hyn yng Nghymru – cyfle i gyfrannu tua 50% mwy at ein GDP.

Cytunwyd yr aelodau oedd yn bresennol i wneud cais i fod yn gangen swyddogol *Yes Cymru.* Terry Evans yw'r Ysgrifennydd. Trefnir mwy o ddigwyddiadau yn y dyfodol agos. Cewch gysylltu â'r grŵp drwy Trydar/Facebook.

**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

# Dyddiadur

**TACHWEDD**

**12** **Bethel** 10 Richard Lewis
**Gwasanaeth Sul y Cofio** 10.45 Neuadd Goffa Tal-y-bont
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**14** **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 2 'Cofio Ieuan Gwyllt' (Rhidian Griffiths)

**15** **Bore Coffi** 10.30–12 Neuadd Llanfach, Taliesin

**17** **Cyngerdd Hwyliog Sioe'r Cardis** 7 Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Tocynnau ar gael gan aberystwythartscentre.co.uk
**Cwis** 8 Wildfowler

**18** **Dal ati** 10.30–11.30 Cletwr

**19** **Bethel** 10 Uno â Seion, Robert Powell
**Rehoboth** 11.15 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Clwb Celf Ieuenctid** 2–4 Cletwr

**22** **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 'Mwynfeydd Tal-y-bont' (Ioan Lord)

**23** **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddi Hwyrol

**24** **Sesiwn Nos Wener** (Neil Rosser) 8 Llew Gwyn

**25** **Ffair Nadolig y Neuadd** 2 Neuadd Goffa Tal-y-bont

**26** **Bethel** 10 Geraint Evans
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Ffair Nadolig a groto Siôn Corn** 11–4 Neuadd Llanfach, Taliesin
**Clwb Celf Ieuenctid** 2–4 Cletwr

**RHAGFYR**

**1** **Cwis** 8 Wildfowler

**2** **Dal ati** 10.30–11.30 Cletwr

**3** **Rehoboth** 11.15 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Clwb Celf Ieuenctid** 2–4 Cletwr

**7** **Bingo** 7.30 Wildfowler


**10** **Bethel** 10 Geraint Evans
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Cymanfa Garolau Sioe'r Cardis** 7 Capel Carmel, Llanilar

**BOB WYTHNOS**
**Cletwr**
Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

pp Tachwedd 23.qxp_Layout 1 07/11/2023 11:31 am Page 3

# Pobl a Phethe

Efallai bod nifer o ddarllenwyr Papur Pawb wedi gweld wyneb Tomos Benjamin, Dôl Pistyll yn gweini bwyd yn Cletwr yn ddiweddar. Mae Tomos, sy'n dathlu ei benblwydd yn 18 oed yn ystod mis Tachwedd, yn wyneb cyfarwydd i dudalen chwaraeon y Papur gan ei fod ymhlith chwaraewyr talentog tîm peldroed Tal-y-bont. Ond mae Tomos a'i bryd ar dilyn gyrfa ym maes coginio ac erbyn hyn yn ei ail flwyddyn yn Ngholeg Ceredigion yn astudio arlwyo a lletygarwch. Dymuniadau gorau i ti Tomos.



**Ar y ffordd**
Llongyfarchiadau i Eli Davies, Gwynfryn, Sion Thomas, Dôl Pistyll a Therese Woodling, Maes y Llan, Tal-y-bont ar basio eu prawf gyrru yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddynt.

**Astudio yng Nghaerdydd**
Dymuniadau gorau i Lili Gwen, Cytringan sydd wedi dechrau ar ei hastudiaethau Blynyddoedd Cynnar, ac i Lowri Thomas, Rhosyngwyn sy'n astudio Gwyddorau Cymdeithasol. Mwynhaewch yn y brifddinas.

**Gwellhad buan**
Gwellhad buan i Cai Thomas, Glas y Ddôl, Tal-y-bont sydd wedi torri pont ei ysgwydd tra'n chwarae pêl-droed, a hynny yn ystod ei wythnos gyntaf yn astudio ei gwrs Astudiaethau Busnes Rhyngwladol ym Mryste.

Gwellhad buan hefyd i Ben Bradley, Garej Davmor, sydd wedi brifo ei goes mewn damwain feicio.

**O'r Ysbyty**
Dymuniadau gorau i David Elwyn, Nantddu, Bontgoch, a John Dewi Evans, Tal-y-bont sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Falch eu bod nhw'n dau yn gwella.

Dymuniadau gorau hefyd i Gwenallt Llwyd Ifan, Maes y Felin, sydd wedi derbyn triniaeth ar ei droed. Gwellhad buan iddo.

Falch clywed bod Barbara Jenkins, Hafod Ifan yn gwella'n dda yn dilyn triniaeth ar ei chalon yn Ysbyty Treforus yn ddiweddar.

**Penblwydd Priodas**
Dymuniadau gorau i Mr a Mrs Bill a Margaret Thomas, gynt o Dal-y-bont, rhieni Julian a Michael Thomas, sydd wedi dathlu penblwydd priodas ddiamwnt yn ddiweddar.

**Penblwydd Hapus**
Penblwydd hapus iawn i Sion Thomas, Dôl Pistyll sydd wedi dathlu ei benblwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

**Diolch**
Dymuna Betty, Delyth, Meinir, Aled a'r teulu ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Evan, gwr, tad, tad-yng-nghyfraith a thadcu hoffus. Diolch hefyd i'r Parch. Wyn Thomas am gynnal y gwasanaeth, Elisabeth James yr organyddes a Beti Griffiths am draddodi'r deyrnged ac am y rhoddion hael er cof am Evan. Diolch hefyd i Gwyn a Janet Evans am drefnu'r angladd gydag urddas.

**Eglwysfach**
Cynhaliwyd bore coffi yn yr Ystafell Haearn, ar fore Sadwrn, 28ain o Hydref. Bob amser bydd yr elw yn mynd at achosion teilwng, a'r tro yma codwyd y swm o £300 at y blant a theuluoedd diniwed yn Israel a Gaza, sydd yn wynebu erchylltra rhyfel. Diolch i bawb, am eu cefnogaeth.

**Hanner marathon Caerdydd**
Ymhlith y miloedd o redwyr a lwyddodd i gwblhau'r ras eiconig y brifddinas yn ddiweddar oedd Jodie Hughes, Llys Dewi, Elan Elidyr, Simdde Wen a Garmon Nutting, Tŷ Hen Henllys. Llwyddodd Garmon i gwblhau'r ras mewn amser eithriadol o gyflym o 1.43 awr. Ardderchog!




**Mewn Cymeriad**
Braf oedd gweld Elliw Dafydd, wyres Gwilym ac Ann Jenkins, Llety'r Bugail, yn perfformio yng nghynhyrchiad cwmni Mewn Cymeriad o Annie Cwrt Mawr yn y Llyfrgell Genedlaethol yn ddiweddar.

Maer'r ddrama un ferch, sydd ar daith tan ddiwedd Tachwedd, yn seiliedig ar fywyd Annie Jane Hughes Griffiths, ymgyrchydd dros heddwch a roddodd lais i fenywod Cymru ar gydraddoldeb a materion rhyngwladol.

Mae cyfle i wylio'r perfformiad yn Theatr Felinfach ar Tachwedd 7 fed am 7.30pm.

**Astudio**
Pob hwyl i Ilona Hoffmann, Coetmor sydd ar hyn o bryd yn astudio yn Seattle fel rhan o'i chwrs Prifysgol Bryste Celfyddydau Rhyddfrydol gyda Hanes yr Henfyd.

**Eisteddfod Wlân**
Llongyfarchiadau enfawr i Llio James, gynt o Llannerch, Tal-y-bont, sydd wedi ennill gwobr Dylunydd Gwlan yn Eisteddfod Wlân Cenadlaethol cyntaf Cymru a gynhaliwyd yn adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd. Mae Llio'n byw yng Nghaerdydd erbyn hyn ac yn ennill clod fel dylunydd tecstiliau yn ogystal â darlithio yng Ngholeg Sir Gâr. Y tro nesaf byddwch yn ymweld â Chanolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd byddwch yn ffodus i wedl gwaith dylunio tecstiliau Llio'n harddu'r ardaloedd cyhoeddus yn y cyntedd a'r caffi. Llongyfarchiadau mawr i ti Llio!

**Profedigaeth**
Trist iawn yw nodi marwolaeth Alun Morgan (Mogs), Tyrell Place, Tal-y-bont yn ddiweddar. Bydd teyrnged yn y rhifyn nesaf.

**Babi Newydd**
Llongyfarchiadau mawr iawn i deulu Ger y Nant, Gwyn, Catrin a Gethin Lloyd Jones ar enedigaeth Osian Lloyd Jones. Aelod newydd i deulu Pensarn, Tal-y-bont.

**Symud tŷ**
Dymuniadau gorau i Mrs Joyce Porter, Penrhiw sydd wedi symud i gartref newydd ym Maes Afallen, Bow Street.

**Cydymdeimlo**
Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Eurfrin Williams, Pensarn ar 9 Hydref yn 81 mlwydd oed. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd.




NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Alun Davies
Contractiwr Trydanol
M 07703 169813
Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
E alun.davies142@btinternet.com

pp Tachwedd 23.qxp_Layout 1 07/11/2023 11:31 am Page 4



*Diwrnod T Llew Jones*



*Llysgenhadon efydd*



*Gwasanaeth diolchgarwch*




*Diwrnod coch gwyn a gwyrdd*



*Afalau Gogerddan*



*Aml-sgiliau*

# Ysgol Tal-y-bont



*Ymweliad Mr Urdd*

## Gwasanaeth Diolchgarwch

Roedd hi'n hyfryd cael bod nôl yng Nghapel Bethel i gynnal ein gwasanaeth diolchgarwch ac roedd hi'n hyfryd i weld cymaint wedi dod i gefnogi. Hoffwn ddiolch yn fawr i swyddogion y capel am y croeso ac i Mrs Falyri Jenkins am gyfeilio ac am ein cynorthwyo gyda'r eitemau cerddorol. Diolch o galon i'r staff am baratoi'r gwasanaeth ac i'r plant am berfformiadau graenus. Casglwyd llawer iawn o fwyd i'r Hwb ym Mhenparcau a dros £150 i elusen Toilet Twinning. Diolch o galon i bawn oedd wedi gallu cyfrannu.

## Diwrnod T Llew Jones

I gyd-fynd gyda'n hymrwymiad i'r Siarter Iaith, trefnodd y Criw Cymraeg brynhawn difyr iawn i ddathlu Diwrnod T. Llew Jones eleni, Gwahoddwyd Catrin M.S. Davies, Mair Nutting, Mrs Jenkins a Miss Kate atom i ddarllen gwaith yr awdur ac i gynnal gweithgareddau diddorol yn y gwahanol ddosbarthiadau. Roedd hi'n braf i atgyfnerthu ein cysylltiad gyda'r Cylch Meithrin ar y diwrnod hefyd. Diolch yn fawr am y gymwynas yma, roedd pawb wedi mwynhau'n arw.

Roedd y Criw Cymraeg hefyd wedi trefnu i Mrs Nelmes ddod atom i beintio wynebau'r plant wrth ddathlu Diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd – digwyddiad blynyddol i godi arian i Urdd Gobaith Cymru. Eleni cafwyd ymweliad arbennig ac annisgwyl hefyd gyda neb llai na Mr Urdd yn gwibio heibio i ddweud "Helo"!

## Hoci

Diolch yn fawr i Mrs Hughes am drefnu gêm hoci i ni yn ystod y mis. Roedd hi'n hyfryd i weld brwdfrydedd y criw newydd ac roedd pawb wedi mwynhau'r cyfle i gyd-chwarae. Cafwyd gêm arbennig yn erbyn Ysgol Padarn Sant a chanlyniad arbennig hefyd – da iawn blant!

## Ysgol Iach

Rydym yn ffodus iawn o gael dau ddisgybl sydd wedi ymroi yn llwyr i'w gwaith fel Llysgenhadon Efydd yr ysgol. Maent wedi trefnu llawer o weithgareddau diddorol i holl blant yr ysgol gan gynnwys sesiwn hynod greadigol ar Ddiwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd.

Cafodd y plant anrheg annisgwyl ar ddiwrnod olaf yr hanner tymor wrth i Catrin, ein Cynghorydd lleol, ddod ag afalau i ni eu rhannu gyda nhw. Daeth yr afalau blasus o berllan gymunedol Gogerddan – diolch yn fawr am feddwl amdanom.

## Cyngor Ysgol

Penderfynodd y Cyngor Ysgol i drefnu cystadleuaeth i greu poster er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n Polisi Gwrth-fwlio. Llongyfarchiadau mawr i Rory am ennill eleni ac am greu poster trawiadol.

## Pont yr Wylfa

Rydym yn ffodus iawn o gael ein gwahodd i wyliau aml-sgiliau'n aml dros y flwyddyn. Y tro yma Blwyddyn 5 a 6 gafodd fynd i Brifysgol Aberystwyth i ymarfer gwahanol fedrau mewn amrywiol gampau. Roedd pawb wedi cael amser da ac wedi cael cyfle i gyfarfod eto gyda'n ffrindiau yn Ysgol Craig yr Wylfa.

Gweithgaredd ddiddorol arall a drefnwyd ar y cyd yn ystod y mis oedd honno yn Theatr Felin-fach i roi hyfforddiant i'r 'Arwyr Digidol'. Fe ddysgwyd llawer am bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we a'r ffordd y gallwn rannu'r negeseuon pwysig yma gyda'r gymuned leol. Diolch yn fawr i Ema Williams o Gymunedau Digidol Cymru am y cyflwyniad ac i Eryl a Kay am drefnu'r digwyddiad.

# Colofn Elin



Fyddwch i gyd yn ymwybodol mae'n siwr o sefyllfa fregus ein gwasanaethau bws cyhoeddus o fewn y sir. Rydym wedi colli'r gwasanaeth Fflecsi Bwabus, a dros dro y Cardi Bach, ac mae dyfydol ansicr i nifer o wasanaethau eraill y sir hefyd ar hyn o bryd. Er fod trafodaethau yn parhau gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth am unrhyw ddatrysiadau arall posib ar gyfer y gwasanaeth Fflecsi Bwcabus, mae'r Gweinidog wedi dweud yn glir ar lawr y Senedd nad oes mwy o gyllid ar gael i'r gwasanaeth yng Ngheredigion. Er hyn, mae peth newyddion da am wasanaeth y Cardi Bach. Bydd gwasanaeth tebyg yn cael ei gynnig o fewn contractiau newydd y T5 o Ionawr ymlaen.

Rwyf am eich sicrhau fy mod i, Ben Lake AS, ac aelodau etholedig Plaid Cymru, gyda chymorth Aelodau Seneddol eraill Plaid Cymru i gyd yn gweithio'n ddiwyd i ymateb i ymholiadau ein etholwyr, ac i gynrychioli holl ddefnyddwyr bysiau y sir, ac mae Lee Waters AS, Gweinidog Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru wedi clywed ein neges yn glir. Rydym hefyd mewn cysylltiad rheolaidd gyda darparwyr trafnidiaeth a'r Cyngor Sir, ac mae pawb sydd yn rhan o'r ddarpariaeth wedi dangos eu hymrwymiad i wneud popeth gallant i gynnal y gwasanaethau, gymaint a sy'n bosib o fewn eu gallu.

Mae llawer o drafodaeth wedi bod yn ddiweddar ar lawr y Senedd am y pwysau mae ein gwasanaethau iechyd a'n adrannau achosion brys yn ei wynebu, ac wrth i'r gaeaf agosau, mae'n naturiol i ofidion pawb ddwyshau. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn gweithio dros y flwyddyn diwethaf ar raglen o cymorth ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan ddarparu £25milliwn ychwanegol i'r byrddau iechyd, i wella'r gwasanaeth 111 ac arlein, sefydlu canolfannau gofal sylfaenol brys a gwasanaethau gofal argyfwng un diwrnod. Felly os fyddwch chi'n sal dros y gaeaf, a nad ydych angen sylw brys cofiwch fod y gwasanaeth ffon/arlein 111 yn wasanaeth gwybodaeth iechyd defnyddiol sydd ar gael i chi hefyd.

Wrth i ni gyrraedd Tachwedd, byddwn yn prysur drefnu dathliadau'r Nadolig ac wrth ddechrau paratoi a siopa anrhegion, ceisiwch gefnogi ein siopau a busnesau lleol gymaint a phosib. Mae nifer ohonynt yn dal i fod mewn sefyllfa bregus yn dilyn y pandemig ac yn brwydro costau gweithredu uchel, ac maent angen eich cymorth ni oll.



*Monica Lloyd Williams, Mick a Jenny Fothergill a Dai Dowsett yn cael hoe o'r plannu*

# Coed a Chacen

Bydd criw gweithgar Coed Tal-y-bont yn dechrau plannu cyn bo hir ac mae croseo mawr i unrhywun sy'n eisiau ymuno â ni.

Rydyn ni wedi bod wrthi yn plannu 20,000 o goed ac yn cynllunio i blannu 7000 mwy dros y tymor gaeaf sy'n dod.

Mae llawer o bobl yn dychmygu bod y gwaith yn anodd iawn, ond dydy hynny ddim yn wir o gwbl. Mae'r coed ifanc yn fach ac yn ysgafn iawn ac rydyn ni'n gweithio mewn grwpiau a gall bob un ddewis ei waith: palu twll, rhoi coed yn y twll, a chau'r twll. Syml!


Rydyn ni'n awyddus i blannu cymaint o goed â phosib i helpu'r broses o arafu'r llif i afonydd Leri a Ceulan. Rydyn ni'n plannu coed mewn gwrychoedd lle mae ffermwyr yn awyddus i rannu caeau mawrion a mabwysiadu arferion ffermio adfywiol. Rydym yn sylweddoli bod hon yn sefyllfa lle mae pawb ar eu hennill, Mae'r gwrychoedd rydyn ni'n eu plannu yn cynnig cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.

Rydyn ni wrthi bob bore dydd Sadwrn a bob bore dydd Llun, o 10yb i 1yp. Croeso i chi decstio fi am fanylion ( 07507464077 ). Mae wastad cacen, coffi, sgwrs cymdeithasol, a golygfeydd anhygoel … mae pawb yn dod adref y hapusach wedi bore o blannu coed!

*Linda Denton*









# Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth



Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod yn festri capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 10 Hydref, gan Meinir Fleming.

Claire Fowler, Tal-y-bont, oedd y wraig wadd, a soniodd am ei chwmni o'r enw Jones & Ginger a'r modd mae'n ailgylchu gwahanol bethau er mwyn rhoi ail fywyd iddynt.

Daeth â rhai eitemau gyda hi i ddangos sut mae wedi ail ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau i greu nwyddau newydd allan ohonynt.

Diolchwyd iddi am brynhawn difyr iawn, ac yna mwynhawyd y te a baratowyd gan Non Griffiths.


Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
07375 422 608


## Clwb Cant Neuadd Llanfach

Enillwyr mis Hydref:

1. Rhif 001 Anwen Haynes
2. Rhif 007 Linda Hicks
3. Rhif 055 Charlotte Nicholls


Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553



# Trin dŵr glaw



Daeth criw da o bentrefwyr i Neuadd Tal-y-bont bore Mawrth y 10fed o Hydref i gwrdd â staff Dŵr Cymru - Kelly Jordan a Richard Davies - mewn gweithdy ar ddŵr yn gyffredinol a trin dŵr glaw yn benodol.

Pwrpas y gweithdy oedd trafod sut y mae dŵr glaw yn mynd i mewn i'r system garthion a beth yw effaith hynny ar orsaf trin carthion y pentre. Yn fras - os aiff dŵr glaw/glan i'r system cario carthion y mae dau beth yn digwydd sef bod y tanc storio sydd yng ngwaelod y pentre yn llenwi yn gynt nac y dylsai ac os yw'r carthion yn cynnwys gormod o ddŵr glan mae nhw'n cael eu glastwreiddio a bydd y broses o'u torri lawr yn cael eu arafu. Felly yr amcan yw gweld a oes modd lleihau faint o ddŵr glaw sy'n mynd i'r system garthion.

Mae Dŵr Cymru yn hapus i ddod yn ôl i Dal-y-bont yn y dyfodol agos i brofi gwahanol rannau o'r system i weld ble mae dŵr glaw yn mynd i'r pibelli carthion. Mae'r prawf yn syml iawn ond yn ddifyr iawn i'w wylio. Mae'r llun isod yn dangos pawb yn gwylio prawf yn digwydd yng nghefn y Neuadd. A roedd hi'n braf nodi bod dim o ddŵr glaw cefn y Neuadd yn mynd i mewn i'r system garthion! Newyddion da.

Os hoffech chi iddyn nhw ddod i brofi'ch draeniau chi rhowch wybod i Catrin M S Davies: catrin.m.s.davies@ceredigion.llyw.cymru

A'r neges arall gan Ddŵr Cymru : mae angen i ni gyd fod yn ofalus beth sy'n cael ei roi i lawr y toiled a'r sincs yn y cartre. Dim olew, saim na wet weips oedd y neges!

# Trwsio'r bont



Braf gweld gwelliannau yn digwydd ar hyd llwybrau'r pentref yn Nhal-y-bont. Yn ddiweddar gwelwyd gwiethwyr wrthi'n ddiwyd yn ailosod rhannau o'r bont sy'n croesi'r afon ger Glan Ceulan. Criw o wirfoddolwyr *right of way* oedd wrthi'n gwneud y gwaith ar ran adran gwella llwybrau Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r criw wedi gosod trawstiau a wnaed o blastig wedi eu hailgylchu yn unol â pholisi cynaladwyedd y cyngor.

# Sioe'r Cardis 2024



Fel y gwyddoch, mae trigolion Ceredigion wrthi'n brysur yn casglu arian tuag at y Sioe Frenhinol y flwyddyn nesaf. Ceredigion – Sioe'r Cardis 2024 – fydd yn noddi.

Ar y prynhawn Sul, Hydref 8fed fe ddaeth hi'n gyfle i drigolion gogledd Cerdigion gyfrannu tuag at yr holl weithgaredd. Roedd neuadd Tal-y-bont yn le prysur dros ben ac fe gafodd pawb gyfle i wledda mewn Tê Prynhawn godidog.

Daeth nifer fawr o bobol ynghyd i fwynhau tê blasus, sgwrsio, clebran a hel straeon. Yn diddanu pawb roedd Bryan Jones gyda'i organ.

Gafwyd araith yn llawn geiriau pwrpasol gan Lywydd y prynhawn, Alun Elidir.

Diolch o waelod calon i bawb a fu'n brysur yn ystod y dyddiau blaenorol yn paratoi ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i sicrhau bo'r prynhawn wedi bod yn gymaint o lwyddiant.



# Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Sarah Purdon oedd ein gwestai ar nos Lun, 16 Hydref. Y mae Sarah wedi ymgartrefu ym mhentref Tal-bont ers ychydig o flynyddoedd ac wedi mynd ati gyda brwdfrydedd i ddysgu'r Gymraeg. 'Y Wiwer Goch' oedd testun ei sgwrs gan iddi fod yn gweithio am gyfnod ar brosiect yn ymwneud â'r creadur prin yma yn y Canolbarth ac yn fwy penodol yn ardal Llanymddyfri, gan gasglu data a gwybodaeth defnyddiol yn ei gwaith bob dydd. Wrth holi'r aelodau doedd o ddim yn syndod i ddarganfod mai canran fechan oedd wedi gweld wiwer goch erioed.

Disgrifiodd pa anghenion oedd gan y wiwer a'r math o gynefin ac amgylchedd sydd ei angen arno i ffynnu a chynyddu. Defnyddiodd gyfarpar technoleg y Neuadd Goffa i ddangos nifer o luniau ac i hybu ein dealltwriaeth.

Ar ddiwedd y noson dymunwyd yn dda iddi yn ei swydd newydd gyda'r RSPB yn Ynyshir. Trefnwyd y noson gan Fal Jenkins.

# Bedwyr ym mhendraw'r byd



*Cneifwyr o fri – Gwenno, Ieuan, Bedwyr ac Osian*

Mae Bedwyr Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont, wedi teithio i Awstralia gyda dau ffrind i ddysgu mwy am ddulliau cneifio'r ffermwyr yno. Anfonodd air at Bapur Pawb yn son am ei hanes yno.

'Mae'n nhw'n cneifio drwy'r flwyddyn yn Awstralia felly penderfynais mai dyma'r lle gorau i fynd i wella fy sgiliau. Roeddwn i'n gwybod fod Gwenno Evans, Tanllan yn gweithio yma ers mis Tachwedd llynedd felly trefnodd hi ein bod yn cael sgwrs gyda'i rheolwr hithau. Yn ffodus oedd e'n eiddgar iawn i ni ymuno gyda'r criw felly bant a ni. Rydyn ni wedi cyfarfod gyda ffermwyr gwahanol o bob ardal yn barod, mae'n nhw wedi bod yn glen iawn atom ni ac yn barod i'n helpu bob amser.

Rydyn ni'n gweithio mewn ardal yn New South Wales sydd ddim yn anhebyg i'r tirwedd adre. Mae tipyn o goed ac mae'r tir yn las ac yn anwastad. Mae'n dechrau poethi nawr gan ei bod hi'n haf yma sy'n golygu ei bod y tir yn dechrau llosgi.

Rydyn ni'n byw mewn cabanau pren sy'n agos at y siediau cneifio, does dim byd modern am y lle ac mae'n oer iawn yn y bore! Ar ddiwrnod arferol byddwn yn mynd am frecwast tua 6 o'r gloch ac yna anelu at y sied gneifio er mwyn paratoi at y dydd o'n blaenau. Byddwn ni wrthi am tua 8 awr y dydd gydag awr i ginio. Mae'n waith corfforol ond dwi'n mwynhau ac yn gwella fy nhechneg.

Fel pob swydd mae'n bwysig fy mod yn gofalu am fy offer felly dwi'n golchi'r cribau a'r torrwyr yn ddyddiol ac yn hogi'r cyfan bob nos cyn mynd i gael cawod a swper nôl yn y cabanau.

Dwi'n mwynhau yma ond yn colli ambell beth am adre. Dwi'n gweld eisiau'r cwn yn arbennig. Mae'r bwyd yma'n dda iawn ond mae'n job curo bwyd adre!

Mae'r cneifio yn gallu bod yn heriol ar adegau. Mae caglau ofnadwy ar lot o'r defaid ac mae'n anodd ar yr offer. Hefyd mae gwlan dros y defaid i gyd, o'r trwyn reit lawr i'r traed a chrychau drostynt i gyd. Mae ysgall yn tyfu ar sawl fferm sy'n golygu ei fod yn mynd yn sownd yn y gwlan, sy'n boen i ni wrth gneifio.'

Mae Bedwyr a'i ffrindiau bwriadu anelu at Seland Newydd tua mis Rhagfyr felly mi fydd yr anturiaethau yn parhau. Pob lwc iddynt!




# Clwb Gwawr



Cafwyd noson hwyliog iawn y mis yma. Dechreuwyd y noson gyda phryd o fwyd yn Lolfa Athro ac yna ymlaen i Lyfrgell Aberystwyth i wrando ar Rhian Cadwaladr yn sôn am ei llyfr newydd Casa Dolig.

# Dathlu 10 mlynedd o Gelf Cletwr



Ers sefydlu'r fenter ym 2013 mae ymwelwyr cyson i Cletwr wedi mwynhau gweld gwaith artistiaid lleol yn harddu waliau'r Cwtch a'r wal decstilau yng ngofod uchel y caffi. Mae'r arddangosfa gyfredol, Cymuned Greadigol yn dathlu 10 mlynedd o Gelf Cletwr ac yn arddangos gwaith dau ddeg wyth o artistiaid sydd eisoes wedi cynnal ardangofeydd unigol yn Cletwr.

Dywed Chloe Birds, rheolwr Cletwr ac un a hyfforddwyd ei hun fel artist.

"Rydyn ni'n ffodus bod gennym ni dalent anhygoel yn yr ardal, ac rydw i mor falch o fod yn rhan o hynny gyda sefydliad sy'n dathlu ac yn cofleidio'r celfyddydau gweledol.

Rwyf wedi cael y cyfle i gwrdd ag artistiaid gwych ac yn edrych ymlaen at gweld ein harddangosfeydd yn y dyfodol yma yn Cletwr".



*Piera Cirefice, Machlud Ynyslas*

Ar 26 Hydref cynhaliwyd digwyddiad anffurfiol i ddiolch i'r artistiaid am eu cefnogaeth ac am wneud Cletwr yn un o leoliadau celf mwyaf cyffrous yr ardal. Mae'r amrywiaeth o luniau gan gynnwys paentio mewn sawl cyfrwng, gwahanol fathau o brintiau, collage, ffotograffiaeth, a thecstilau, yn dangos yr ystod o waith creadigol sydd wedi cael ei arddangos dros y blynyddoedd. Mae'r arddangosfa ymlaen tan 3 Ionawr ac wrth gwrs bydd croeso mawr i bawb ymweld a mwynhau'r arddangosfa ac ychydig o'r lluniaeth blasus ar werth yn y caffi a'r siop.

pp Tachwedd 23.qxp_Layout 1 07/11/2023 11:31 am Page 9

# Y Parchedig Fred Jones (1877-1948)

O'r 21 o weinidogion sydd wedi gwasanaethu yng nghapel Bethel, Tal-y-bont, dim ond un ohonynt sydd â phlac i gofnodi ei gyfnod fel bugail, sef y Parch Fred Jones. Bu yntau farw 75 mlynedd yn ôl i'r mis hwn a dadorchuddiwyd y plac yn Ebrill 1949, ychydig fisoedd ar ôl farwolaeth.

Fred Jones hefyd yw unig weinidog Bethel a gafodd gyfarfod teyrnged i ddathlu canmlwyddiant ei eni. Cynhaliwyd hynny yn Nhachwedd 1976, gyda sgript wedi'i lunio gan y diweddar J R Jones.

Gan iddo farw 75 mlynedd yn ôl i eleni, mae'n briodol i'n papur bro gynnwys ychydig o hanes un o fugeiliaid mwyaf dylanwadol y capel ac un a enynnodd barch mawr yma yn Nhal-y-bont ac hefyd ar hyd y sir hon a dros Gymru gyfan.

Mae gan y Saeson eu teuluoedd o dras fonheddig ac uchel ael gyda'r teulu brenhinol ar y brig, - yno i'w parchu gan y werin bobl. Ond rydym ni fel Cymry yn parchu'n fwy rhai teuluoedd sy'n deillio o'r werin bobl ddiwylliedig a dirodres.

Ymhlith y rhain mae teulu'r Cilie. Mae'r Cilie yn fferm yn agos i Langrannog ac mae nifer o aelodau teulu'r Cilie wedi amlygu ei hun ym mywyd cyhoeddus Cymru – yn feirdd, yn weinidogion, a'r dyddiau hyn, yn gantorion poblogaidd, ac yn wleidyddion - y cyfan yn deillio o'r fferm fach ddi-nod o waelod y sir hon.

Sylfaenwyr y teulu hwn oedd Mary a Jeremiah Jones a symudodd i fferm Cilie ger Llangrannog yn 1889. Roedd iddynt ddeuddeg o blant a Frederick Cadwaladr Jones oedd yr hynaf ohonynt. Ganed ef ar 3 Mai 1877 ym Mlaencelyn, 12 mlynedd cyn i'r teulu symud i'r Cilie.

Roedd aelwyd y Cilie yn llawn afiaith a ffraethineb - a barddoniaeth yn elfen ganolog ym mywyd y teulu.

Fe aeth Fred Jones i'r coleg ym Mangor yn 1899. Roedd eisoes yn barddoni ac yn feistr ar y gynghanedd. Lluniodd englynion am ei diwtoriaid, gan gynnwys hwn ar yr Athro J M Davies:

Dyn heb wallt, dyn heb wylltu, - a'i wyneb
    Annwyl byth yn gwenu;
  Sgolor dewr, Hebrewr o'r bri,
  Abram wedi dadebru.


Bu Fred Jones yn barddoni dipyn drwy gydol ei fywyd gan ennill ambell i gadair eisteddfodol yma ac acw.

Ar ôl graddio gyda BA (enillodd radd BD yn ddiweddarach), galwyd ef i wasanaethu capel Moreia, Cwm Rhymni, yn 1905. Yn ddiweddarach, yn 1917, symudodd i Dreorci yn y Rhondda i wasanaethu capel Bethania lle'r oedd yr aelodaeth dros bedwar cant. Bu Fred Jones nid yn unig yn fugail da dros y capeli hynny, roedd hefyd yn weithgar iawn mewn meysydd cyhoeddus. Mewn ardaloedd a oedd yn brysur Seisnigeiddio, bu'n dadlau'n frwd gyda'r cynghorau sir i wella y ddarpariaeth o'r Gymraeg yn yr ysgolion a hynny'n aml yn erbyn cynghorwyr gelyniaethus.

Ddechrau Awst 1925 teithiodd i Bwllheli, lle y cyfarfu chwech o genedlaetholwyr, gan gynnwys Saunders Lewis a Lewis Valentine, a ffurfio Plaid Genedlaethol Cymru. Felly roedd yn un o sylfaenwyr y blaid honno: Plaid Cymru erbyn hyn

Yn 1926 cafodd alwad i Fethel, Tal-y-bont, i ofalaeth a oedd hefyd yn cynnwys capel Soar Pensarn. Efallai y denwyd ef i ddychwelyd i'w sir enedigol gan y tŷ deniadol newydd sbon, Maesmor, a godwyd yn 1926. Dyma abwyd i un a oedd â naw o blant o'i ddwy briodas. Roedd wedi priodi Maude Davies yn 1906 a chawsant pump o blant. Bu hi farw yn 1918 o'r 'Spanish Influenza'. Wedi hynny priododd Eunice Rhagfyr Jones a chawsant pedwar o blant.

Er ei fod yn gydwybodol o safbwynt y gwasanaethau a fu'n eu cynnal ym Methel, ac yn ei waith bugeiliol, roedd hefyd yn weithgar yn y gymuned. Bu'n cynnal dosbarthiadau ar iaith a llenyddiaeth Cymru dan nawdd y WEA; sefydlodd Aelwyd yr Urdd yn y pentref; ac yn bennaf oll etholwyd ef yn Gynghorydd Sir yn 1928– yr aelod cyntaf o Blaid Cymru i gael ei ethol i Gyngor Sir Ceredigion. Bu'n ddiwyd iawn ar y Cyngor yn arbennig ym maes Addysg.



Mae ambell i stori ddifyr am ei gyfnod yma yn Nhal-y-bont. Dyma un ohonynt:

Yn 1926, gwahoddwyd Fred Jones i gadeirio Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Treorci a oedd i'w chynnal yn 1928 ond yn y cyfamser roedd wedi symud i Dal-y-bont i fyw. Felly fy fyddai'n teithio unwaith y mis o Dal-y-bont i Dreorci ar gyfer y cyfarfodydd. Ar un achlysur collodd y bws o Dal-y-bont i Aberystwyth ond fe gafodd ei gludo gan Lewis Morris, y ffatri wlân (tad y diweddar Valma Jones) yn ei gar i orsaf Aberystwyth. Ond roeddent yn rhy hwyr i ddal y trên i Gaerfyrddin a oedd wedi ymadael â'r orsaf. Gyrrwyd fel mellten ar ei hôl, ond ni lwyddwyd i'w dal yn Llanfarian nac yn Nhrawsgoed. Ond llwyddwyd i'w dal yn Ystrad Meurig. Cyrhaeddodd y teithiwr blinedig Dreorci i ddarganfod ei fod yn rhy gynnar ar gyfer y cyfarfod – wythnos yn rhy gynnar!

Yn ei flynyddoedd olaf yma yn Nhal-y-bont dechreuodd Fred Jones golli ei olwg. Roedd e'n methu darllen o'r pulpud, er y gallai weddïo o'r frest a phregethu. Byddai aelodau o'i deulu yn darllen darnau o'r ysgrythur a geiriau emynau iddo cyn y Sul a byddai'n eu dysgu ar ei gof. A byddai ei fab Dafydd Rhagfyr hefyd yn darllen o'r ysgrythur o'r sêt fawr.

Bu Fred Jones farw ar 2 Tachwedd 1948. Cynhaliwyd yr angladd ym Methel ac fe'i claddwyd yng Nghapel y Wig, Llangrannog.

Mae'r enw 'Fred' yn enw eithaf anghyFFREDin ymhlith ni'r Cymry-Gymraeg ond mae wedi para yn y teulu hyd heddiw. Ŵyr Fred Jones, Alun Ffred Jones, enillodd Wobr Goffa Daniel Owen yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

*GJ*




# Yn Naturiol

## Taith Gerdded Tir Canol – Hydref 2023

Dros fisoedd yr haf a'r hydref, mae Tir Canol wedi bod yn trefnu nifer o deithiau cerdded cyhoeddus yn yr ardal i archwilio'r tirwedd, diwylliant, bywyd gwyllt, hanes a dod â phobl at ei gilydd i rannu eu brwdfrydedd am yr ardal anhygoel hon o ganolbarth Cymru.

Ar ddechrau o mis Hydref y lleoliad a ddewiswyd ar gyfer un o'r teithiau cerdded hyn oedd Pumlumon – mynydd uchaf canolbarth Cymru, gyda chyfoeth o gynefinoedd, straeon a haenau daearegol diddorol i'w darganfod. Ymwelodd teithiau cerdded cynharach dros yr haf â chynefin fforest law celtaidd Cwm Llyfnant, yn ogystal â thaith arfordirol o Bow Street i Aberystwyth, gan ymweld â gardd farchnad Huw Richards a fferm Wallog ar hyd y ffordd.

Trefnwyd taith gerdded Pumlumon gan dywysydd llawrydd lleol Jade Phillips, sy'n gweithio yn nhîm Tir Canol, a daeth y grŵp ynghyd â phobl o Pentir Pumlumon ac Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn, yn ogystal â naturiaethwyr ifanc o Brifysgol Aberystwyth. Roedd hi'n ddiwrnod braf iawn i'r daith gerdded – gyda golygfeydd panoramig anhygoel o'r tirwedd o gwmpas, yr holl ffordd i gopaon Cader Idris, Aran Fawddwy ac Eryri i'r gogledd, gyda Bannau Brycheiniog ar y gorwel i'r de.

Daeth criw o 15 o bobl draw am y diwrnod, a bu pawb yn rhannu taith bleserus yn archwilio'r ardal; gan ddechrau o'r dyffryn wrth ymyl Cronfa Ddŵr Nant-y-moch, esgyn i gopa Pumlumon Fawr, ac yna dychwelyd heibio Pen Carreg Tewion a Llyn Llygad Rheidol i Faesnant.

Er nad yr hydref yw'r amser gorau o'r flwyddyn i weld bywyd gwyllt yr ucheldir, roedd yna ieir bach yr haf Mentyll Cochion ar eu hymfudiad tua'r de, Barcutiaid Coch a Bwncathod i'w gweld yn yr awyr las uwchben, a llu o blanhigion Arctig-Alpaidd prin wedi'u haddasu ar gyfer uchder uchel hefyd; rhywogaethau fel Cnwp-fwsogl Mawr, Cnwp-fwsogl Alpaidd, Ffynidwydd ac Alpaidd Cnwpfwsogl, Creiglus a Llus Coch.



Roedd yn gyfle da i weld cynefinoedd mawndir mewn tirwedd ucheldirol, a thrafod y 'Pumlumon Project' y mae Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn wedi bod yn ei ddatblygu ers 15 mlynedd; sy'n helpu i gefnogi ffermwyr mewn system economaidd hyfyw sydd hefyd yn helpu i adfer cynefinoedd a sicrhau ecosystem ucheldir gyfoethog yn yr ardal.

Os hoffech chi gael gwybod am fwy o ddigwyddiadau tebyg yn y misoedd nesaf fel rhan o Tir Canol, cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr trwy ein gwefan: https://tircanol.cymru/

Mae Tir Canol yn bartneriaeth o bobl a sefydliadau sy'n gweithio rhwng afonydd Dyfi a Rheidol i ddylunio a darparu canlyniadau cadarnhaol i natur a phobl trwy ein defnydd o'r tir a'r môr. Gan weithio gyda ffermwyr, pysgotwyr, cymunedau, coedwigwyr, cadwraethwyr ac awdurdodau lleol, y weledigaeth yw i wneud y rhan hon o Gymru hyd yn oed yn well i fyd natur a phobl drwy weithio gyda'n gilydd. Mae'r prosiect hwn yn ymwneud â chyfarfod yn y canol, cydweithio a pharchu ein hystod o brofiadau ac arbenigedd. Ar hyn o bryd mae gan Tir Canol ddau aelod o staff llawn amser sy'n gweithio ar draws yr ardal gyda chymunedau lleol, rheolwyr tir a sefydliadau.

*Ben Porter*



## Calan Gaeaf

Cafwyd parti Calan Gaeaf llwyddianus yn Neuadd Tal-y-bont ar ddydd Sul y 29ain o Hydref. Roedd y neuadd dan ei sang o wrachod, ysbrydion, pwmpenni a llawer mwy. Roedd y disgo yn ardderchog gyda goleuni o bob math yn fflachio. Cafwyd cystadleuaeth gwisgo fyny brwd i bob oedran yn ogystal â chystadleuaeth cerfio pwmpenni yn llenwi 4 bwrdd yn nhu blaen y neuadd. Codwyd swm da tuag at y Cylch Meithrin. Diolch i bawb am eu cefnogi eleni eto.

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

STORFA HUNAN FYNEDIAD

UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

MONITRO DIOGELWCH
24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocses a Bubblewrap

Symud gyda Mid Wales Removals

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

MID WALES STORAGE

www.midwalesstorage.co.uk

pp Tachwedd 23.qxp_Layout 1 07/11/2023 11:32 am Page 11

# Cletwr

"Tymor o niwl a ffrwythlondeb aeddfed" yw'r Hydref yn ôl John Keats, ond wrth edrych allan drwy'r ffenest, mae "Poni welwch chwi hynt y gwynt a'r glaw" yn fwy perthnasol. Beth bynnag yw'r tywydd, mae Caffi Cletwr yn lle cynnes braf a chroesawgar. Mae Emma wedi bod yn gweithio ar ymestyn y fwydlen gyda mwy o specials, sy'n werth ymweliad arbennig i'w blasu! Heddiw cefais y "Pasta pôb gyda madarch, bacwn a llawer o gaws a salad" – yum!

Er ei fod ond yn ddechrau Tachwedd, rydym yn dechrau meddwl am y 'Dolig. Bydd y trefniadau arferol yn Cletwr: cynhelir y ffair grefftau a noson siopa hwyr nos Wener 1af o Ragfyr, o 3.30-7.30. Bydd llawer o grefftwyr lleol yn gwerthu'r anrhegion perffaith, cerddoriaeth gan Band Pres Phil Wheeler, mins peis, gwin gynnes a chyfle i chi archebu eich llysiau a chig ar gyfer y diwrnod mawr. Bydd y siop ar agor tan 7 hefyd, felly cyfle i chi brynu danteithion arbennig yn gynnar.

Fel rydych chi'n gwybod (gobeithio), mae Cletwr yn perthyn i'r Gymuned, drwy Gwmni Cymunedol Cletwr Cyf. Bydd CCB Cletwr yn y caffi ar Dydd Sul 26 Tachwedd, gan gychwyn am 4.30yp. Bydd te a chacennau ar gael. Dewch yn llu os ydych chi'n aelod o'r Cwmni. Fe all unrhyw un bod yn aelod – rhaid llenwi ffurflen a thalu £1. Gofynnwch yn y swyddfa am fanylion. Bydd adroddiadau am yr hyn sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â thrafodaeth am y dyfodol. Beth ydych CHI eisiau gweld yn Cletwr?

Fel rwyf wedi nodi o'r blaen, gan ddilyn ymadawiad Rachel fel Trefnydd Digwyddiadau, mae digwyddiadau gyda'r nos yn brin am y tro. Rydym wedi gwneud cais am arian i dalu cyflog y swydd dros dro, a gobeithio bydd modd apwyntio rhywun newydd cyn bo hir. Yn y cyfamser, os ydych chi am drefnu rhywbeth eich hun yn Cletwr, rhowch wybod i'r swyddfa.

Cofion gorau i Ciara, sy'n un o staff blaen y tŷ yn y caffi, sydd bellach ar seibiant mamolaeth. Pob lwc i'r teulu oll, ac edrych ymlaen at ei gweld hi nôl.

Tan fis nesaf: gobeithio welwn ni chi i gyd yn y CCB a'r Ffair Grefftau hefyd.

*NC*

# Lle mae Dafydd?



Bydd darllenwyr Papur Pawb yn gyfarwydd erbyn hyn â'n adroddiadau cyson yn dilyn hynt a helynt y morwr mentrus, Dafydd Hughes, Tal-y-bont, sydd yn hwylio rownd y byd ar ei gwch 'Bendigedig'.

Erbyn dechrau Tachwedd roedd 'Bendigedig' wedi teithio ymhell heibio Deheudir Affrica ac yn hwylio drwy ran ddeheuol Gefnfor yr India. Cafodd Dafydd ddamwain ar 21 Hydref pan darodd un o'r hwyliau ef yn ei ben gan adael briw poenus uwch ei lygad. Mae'r briw wedi gwella'n dda erbyn hyn, diolch byth.

Y nod i Dafydd ar hyn o bryd yw dilyn cwrs sy'n osgoi y moroedd peryglus i'r gogledd o Antartica. Yna ymlaen i gyfeiriad Awstralia.

Pob dymuniad da iddo.

# CFfI Tal-y-bont



*Mari Gibson a Beca Davies, enillwyr Fferm Ffactor Ifanc*

Bu'n hanner tymor eithriadol o brysur a llewyrchus i Glwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont yr hydref hwn. Braf oedd cael croesawu aelodau newydd i'r clwb, gan hefyd ymfalchio bod cymaint wedi dychwelyd i'n rhengoedd wedi'r haf hir. Dros yr wythnosau diwethaf ry'n ni wedi cael sawl noson ddifyr - o Helfa Drysor i Noson 'Dod i nabod ein gilydd yn well'. Ar gais Pwyllgor Eco Ysgol Gymunedol Tal-y-bont, bu criw o aelodau'n clirio iard yr ysgol ar ôl iddo orlifo, er mwyn ei gwneud yn ddiogel i'r plant. Roedd 'na groeso mawr i'r siocled poeth a'r bisgedi a gafodd y criw wedi'r gwaith caled! Buon ni hefyd yn ymweld â fferm Pwmpenni Pendre yn Llanfihangel y Creuddyn, i glywed mwy am y busnes a'r gwaith o osod a thrin y planhigion dros gyfnod yr haf. Diolch i Bethan a Tom Evans am roi o'u hamser, ac am y croeso. Gadawodd pawb y fferm yn hapus gyda'u pwmpen bersonol, yn barod i'w cherfio!

Yn ogystal â'r cymdeithasau, mae aelodau wedi bod yn brysur yn cystadlu yn enw'r Clwb mewn gwahanol weithgareddau. Ar 14 Hydref bu criw yn cystadlu yn y Diwrnod Maes ar Fferm Trawscoed, Abermagwr. Daeth y tîm Barnu Stoc - Tomos James, Ynyr Siencyn, Mirain Evans a Beca Davies - yn 3ydd. Llongyfarchiadau hefyd i Ynyr Siencyn am ddod yn fuddugol yn Stocmon Iau (dan 18 oed), ac i Mari Gibson a Beca Davies ar ennill Fferm Ffactor Ifanc.

Ymlaen at Eisteddfod CFfI Ceredigion wedyn. Ar nos Iau, 2il Tachwedd, roedd Beca Williams yn fuddugol yn yr Unawd Alaw Werin. Ar y dydd Sadwrn y 4ydd, cafodd Heddwyn a Dyfri Cunnigham 2il a 3ydd yn yr unawd offerynol, a cyrhaeddodd Caoimhe Mellangell y 3ydd safle am Lefaru 16 oed neu iau. Daeth Beca a Cadi Williams i'r brig yn y Ddeuawd; Beca wedyn yn cipio'r ail wobr am Unawd allan o Sioe Gerdd; a Cadi yn ennill y wobr gyntaf am Ganu Emyn dan 28 oed. Pob hwyl i Beca a Cadi wrth iddyn nhw fynd yn eu blaenau i Eisteddfod CFfI Cymru yn Sir Fôn ar 18 Tachwedd 2023.



# Chwaraeon a Hamdden

## Ella ar ddechrau taith gyffrous

Mae Ella Thomas, Rhosyngwyn, Tal-y-bont ar frig ton bêl-droed. Gyda'i gyrfa yn ei chyfnod cynnar, mae hi'n jyglo adolygu TGAU gyda chwarae yn haen uchaf pêl-droed clwb Cymru gyda thref Aberystwyth.


*Ella Thomas*

Gwnaeth Ella ddewis yn saith oed o ran yr hyn yr oedd am ei ddilyn, ac nid yw wedi edrych yn ôl. "Rhoddais y gorau i ddosbarthiadau dawns a dechreuais chwarae pêl-droed i fy nhîm merched yn unig. Chwaraeais i hyd at 14oed, yna nes i mi symud ymlaen i chwarae i dîm dan 16 oed Aberystwyth Aberystwyth lle cefais fy safle ar yr asgell dde.

"Yn ystod fy amser gyda'r tîm dan 16 dechreuais weithio'n galetach a chanolbwyntio ar wella fy ffitrwydd a chyflymder, a arweiniodd fi ymhellach ar fy siwrnai pêl-droed i ble rydw i'n chwarae ar hyn o bryd i'r rhai dan 19 yng Nghlwb Pêl-droed Merched Tref Aberystwyth."

Mae Ella, sy'n disgrifio'i hun fel "asgellwr troed dde gyda chyflymder sy'n hoffi herio amddiffynwyr," yn ffodus o dderbyn cefnogaeth hyfforddwyr ysbrydoledig o oedran cynnar.

"Pan ddechreuais i chwarae pêl-droed fe wnaeth fy hyfforddwr tîm lleol, Kate Evans fy helpu i ddatblygu fy sgiliau pêl-droed o oedran cynnar tra'n chwarae i Bow Street. Mae fy rhieni hefyd yn bobl allweddol sydd wedi fy helpu i ddatblygu fel chwaraewr gan eu bod wedi mynd â fi i fy ngemau a rhoi cyngor a chefnogaeth wych i mi dros y blynyddoedd. Ar ôl ymuno ag Academi Tref Aberystwyth, mae Roy Tourle, fy hyfforddwr presennol, a Gavin Allen, rheolwr y tîm cyntaf, wedi cael effaith aruthrol ar fy natblygiad, ac rwy'n hynod ddiolchgar!"

Nid yw dod mor bell a hithau dim ond yn 15 oed wedi dod heb ei heriau i Ella, fel y datgelodd: "Wrth ddod i mewn i bêl-droed hŷn y tymor hwn, mae agwedd corfforol a thempo'r gêm wedi bod yn heriol i mi fel chwaraewr.

"I oresgyn yr heriau hyn rydw i wedi chwarae mwy o gemau ac wedi dod i arfer â'r tempo. Rwyf hefyd wedi dechrau hyfforddi gyda'r tîm cyntaf sydd wedi fy helpu i ddod yn gryfach ac wedi fy ngalluogi i weld gwahanol strategaethau'r gêm."

Mae yna hefyd yr her o gyfuno astudio ar gyfer arholiadau TGAU sydd i ddod yn ogystal â chwarae pêl-droed dan 19 a hŷn i Aberystwyth. Mae'n rhywbeth y mae Ella yn cyfaddef ei fod yn anodd.

"Rwy'n ei chael hi'n anodd iawn cydbwyso fy addysg gyda phêl-droed, yn enwedig gyda fy TGAU yn y misoedd nesaf. Fodd bynnag, rwy'n gwneud fy ngorau i'w cydbwyso a phan nad wyf yn chwarae rwy'n treulio fy amser yn adolygu."

Mae'r asgellwr ifanc yn hynod ddiolchgar am nawdd Impetus a thynnodd sylw at y manteision y mae'n eu rhoi iddi. "Rwyf mor falch o gael fy noddi gan Impetus ar gyfer 2023/24. Mae nawdd mor bwysig i ni gan ei fod yn golygu nad oes rhaid i mi boeni am ddod o hyd i'r arian i dalu am bethau fel cit neu fws mini i gemau oddi cartref a gallaf ganolbwyntio ar bêl-droed."

"Fy nodau yw cael mwy o brofiad wrth hyfforddi gyda'r tîm cyntaf a datblygu ymhellach fel chwaraewr. Byddwn wrth fy modd yn dod yn aelod rheolaidd o dîm cyntaf Merched Tref Aberystwyth." Dymuniadau gorau i ti Ella.


argraffu
lleol a rhesymol



y lolfa
Talybont Ceredigion SY24 5HE
01970 832 304 /www.ylolfa.com
Holwch Paul am bris: paul@ylolfa.com


## Paul, Chicago a'r '6 Mawr'

Bydd nifer o ddarllenwyr Papur Pawb yn hen gyfarwydd a gwylio gwr tal yn gwibio rownd y pentref ar gyflymder yn agos at y 20 milltir yr awr. Ond yn ystod yr wythnosau diwethaf fyddwch chi ddim wedi gweld Paul Williams yn ymarfer yn ystod ei awr ginio.

Mae rheolwr cynhyrchu Y Lolfa wedi cyfnewid llwybrau cyfarwydd y pentref gyda lonydd llydan dinasoedd yr Unol Daleithiau mewn ymgais i fod ymhlith y nifer dethol i gwblhau cyfres marathon 'y 6 mawr'. Mae Paul, sy'n byw yn Llanfihangel y Creuddyn ac sydd yn gweithio gyda'r Lolfa ers 23 mlynedd eisoes wedi cwblhau rasus Llundain, Berlin a'r diweddaraf yn Chicago, a bydd yn rhedeg ras Efrog Newydd cyn diwedd Hydref. Boston a Tokyo bydd yn weddill ar y rhestr wedyn.




Meddai 'Os lwydda i, mi fydda ymhlith y 12k o redwyr yn y byd sydd wedi cwblhau'r 6 marathon'

Nododd Paul ei fod yn disgyn i gategori rhedwr 'good for age' sy'n golygu fod ei amser yn gynt na'r disgwyl i redwr o'i oed. Golyga hyn ei fod yn cael cychwyn y rasus yn syth ar ol y rhedwyr elit.

Sut brofiad oedd rhedeg ar hyd strydoedd dinas anferth fel Chicago? 'Dwi ddim yn edrych o gwmpas wrth rhedeg, dim ond edrych ar y llawr o mlaen i. Llwyddes i gwblhau'r ras mewn 3 awr a 21 munud.'

Yn ffodus cafodd Paul a'i bartner, Julie Williams sydd hefyd ymhlith staff y Lolfa, gyfle i grwydro'r ddinas yn ystod eu taith.

A'r her yn dilyn y 6 mawr? 'Fyddai'n benni gyda'r marathons wedyn, a gwneud ambell hanner nawr ac yn y man. Mae paratoi at farathon yn golygu tua 4 mis o ymarfer cyson, rhedeg tua 60 milltir yr wythnos. Does dim amser i wneud unrhywbeth arall.'

Felly, mae'n debygol iawn y gwelwn Paul yn gwibio rownd y pentref unwaith eto yn y dyfodol agos. Llongyfarchiadau mawr iddo.